

Fedrwch chi feddwl?

*“Nid oes neb wedi esgyn i’r nef ond yr un a ddisgynnodd o’r nef, Mab y Dyn.”
(adn. 13)*

Beth am ddarllen Ioan 3:1–16 ac yna myfyrio

Hawdd iawn fyddai mynd trwy’r efengylau, gan luosogi’r enghreifftiau sydd yn profi realaeth a gonestrwydd Crist. Ond tybiaf fod y tair esiampl yr ydym wedi edrych arnynt yn ystod y tridiau diwethaf yn ddigon. Wrth ddelio â Iesu, yr ydym yn delio ag un na fyddai byth yn caniatáu i ni gael ein camarwain, byth yn caniatáu i ni weithio o dan dwyll, nac ychwaith yn caniatáu i ni roi ein ffydd yn rhywbeth sydd yn ddi-sail. Wrth ddweud, mewn perthynas â’r nefoedd, “Pe na byddai felly, buaswn wedi dweud wrthyich,” yna, mi fedrwn gymryd ei air fel gwirionedd.

Ond rhag ofn fy mod wedi darlunio yn ormodol gymeriad Iesu fel un sydd yn realydd, gadewch i mi gyflwyno’r syniad yn awr fod Crist, nid yn unig yn onest, ond hefyd yn gydymdeimladol. I sôn am hyn mewn ffordd arall, nid yn unig mae Iesu yn glir o ran ei onestrwydd, ond hefyd yn annwyl o ran ei gydymdeimlad. Mae cydymdeimlad ei galon yn peri fod yr wybodaeth sydd ganddo am y nefoedd yn wybodaeth y mae am ei rhannu gyda’i ddilynwyr. Mae’n gwybod yn iawn fod dynion a gwragedd yn hiraethu am air clir ynglŷn â’u dyfodol. Mae’n gwybod fod y cwestiwn sydd yn aros yn ein calon wrth edrych ymlaen y tu hwnt i’r bedd, yn gwestiwn sydd yn pwysu ar ein heneidiau. Mae’n adnabod consŷrn a theimladau ein calon wrth i ni wynebu angau. Sut y gall Crist sydd â’r fath galon o gydymdeimlad tuag at ei blant aros yn dawel, ac yntau’r unig un yn y byd i gyd oedd â’r gallu ganddo i godi’r llen ar yr hyn sydd yn gorwedd tu hwnt i’r bedd. Sut y gallai gelu’r gwirionedd sydd o’i lefaru yn medru dwyn y fath gysur i eneidiau clwyfedig. Gan mai Iesu yw y Crist, rhaid iddo lefaru a dweud, “Pe na byddai felly, buaswn wedi dweud wrthyich.” Buasai peidio â dweud yn amhosibl i’w ystyried.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 6:25–38; 3:31; 8:23; 13:3

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddywed Iesu am ei gynfodolaeth?
2. Beth oedd Iesu yn ei wybod?

Gweddi

O Arglwydd Iesu Grist, diolch dy fod yn cydymdeimlo. Nid oes dim yn fwy anghredadwy na chredu dy fod ti wedi profi llawenydd a gorfoledd y nefoedd, a’th fod wedyn yn ceisio celu yr wybodaeth yma oddi wrth fy nghalon. Diolch dy fod wedi dweud wrthyim. Diolch am dy gydymdeimlad sydd yn gysur. Amen.